## ATODLEN 1

**CYFNEWIDFA A55 I GYFNEWIDFA PARC DEWI SANT**

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

Lôn Gerbydau Cylchrediad Cyfnewidfa Parc Dewi Sant, ynys ganol a lleiniau ymyl ffordd

B5127 Old Mold Road

Weighbridge Road

Stamford Way/Holywell Road

Yowley Road

Liverpool Road

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Y Priffyrdd sydd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 120 o bwynt 60 metr i'r de ddwyrain o'i gyffordd gyda Mare Hey Lane gan gynnwys y droedbont bresennol dros y gefnffordd, mewn cyfeiriad de dwyreiniol i bwynt ar y gilfan droi ar ochr ogleddol Pentref Busnes Lakeside, pellter o 125 metr. | 1A (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 122 o'i gyffordd gyda Weighbridge Road i'w gyffordd gyda Llwybr Cyhoeddus Rhif 121, pellter o 80 metr. | 1/B | Dosbarthiadol | Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 121 i'r gogledd o'r gefnffordd o'i gyffordd gyda Mare Hey Lane i'w gyffordd gyda Llwybr Cyhoeddus Rhif 122, pellter o 60 metr. | 1/B | Dosbarthiadol | Cyngor Sir y Fflint |
| Ffordd ymadael tua'r gogledd y gefnffordd o'i chyffordd gyda Chyfnewidfa Parc Dewi Sant am bellter o 70 metr i gyfeiriad deheuol. | T | - | Cynulliad Cenedlaethol Cymru |

**Priffordd i'w Chau Dros Dro**

Lôn Gerbydau Cylchrediad cyfnewidfa Parc Dewi Sant o dan y gefnffordd o'i chyffordd gyda'r ffordd ymuno tua'r de i'w chyffordd gyda'r ffordd ymadael tua'r gogledd am bellter o 65 metr.

Lôn Gerbydau Cylchrediad cyfnewidfa Parc Dewi Sant o dan y gefnffordd o'i chyffordd gyda'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de am bellter o 71 metr.

## ATODLEN 2

### CYFNEWIDFA DEWI SANT I WRECSAM – RHEILFFORDD BIDSTON

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| - | 2/A | Dosbarthiadol | Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 25 o'i gyffordd gyda ffin y briffordd ar ochr orllewinol lôn gerbydau tua'r gogledd o'r gefnffordd i gyfeiriad y gorllewin am bellter o 40 metr. | 2/B (llwybr troed/ llwybr beiciau) a 2/C (llwybr troed) | - <br> - | Cyngor Sir y Fflint <br> Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 25 o'i gyffordd gyda ffin y briffordd o lôn gerbydau tua'r de ar y gefnffordd i bwynt ar y rheilffordd Wrecsam i Bidston 45 metr i'r de o Bont Reilffordd Wrecsam i Bidston, pellter o 88 metr. | 2/B (llwybr troed / llwybr beiciau) a 2/C (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint <br> Cyngor Sir y Fflint |
| - | 2/D | Dosbarthiadol | Cyngor Sir y Fflint |

| **Mynedfeydd Preifat i'w Cau.** | **Rhif Cyfeirnod y Mynediad Preifat Newydd** |
|---|---|
| Llwybr Mynediad i Barsel OS Rhif 7792 o gornel gogledd ddwyrain Cyfnewidfa Parc Dewi Sant am bellter o 80 metr. | 2/1 |
| Llwybr Mynediad yn dilyn y ffiniau rhwng Parsel OS Rhif 7792 a'r | 2/1 |

Parsel OS i’r de ddwyrain o Barsel OS Rhif 0088, o’i gyffordd gyda ffin y gefnffordd am bellter o 85 metr tua’r gogledd orllewin ac am bellter o 300 metr tua’r gogledd ddwyrain, am gyfanswm pellter o 166 metr.

**ATODLEN 3**

**RHEILFFORDD WRECSAM – BIDSTON I PLOUGH LANE**

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

Y gefnffordd (gan gynnwys Aston Hill)

Old Aston Hill (B5441)

Hillfield Road

Mountfield Road

Lower Aston Hall Lane

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| Hillfield Road o bwynt 15 metr i'r gorllewin o'i gyffordd gyda Mountfield Road, tua'r gorllewin am bellter o 50 metr | 3/A (llwybr troed) | Dosbarthiadol | Cyngor Sir y Fflint |
| Mountfield Road o bwynt 5 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gyda Hillfield Road, tua'r gogledd orllewin, am bellter o 18metr. | - | - | - |
| Lower Aston Hall Lane o bwynt 3 metr i'r gogledd orllewin o'r ffin rhwng rhifau 8 a 10 Lower Aston Hall i bwynt 3 metr i'r de ddwyrain o'r ffin honno, am bellter o 8 metr. | 3/A | Dosbarthiadol | Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr troed heb ei rifo a thanlwybr a elwir yn danlwybr Aston Mead o'i gyffordd gyda Old Aston Hill ac Aston Hill i'w gyffordd gyda Mountfield Road, pellter o 65 metr. | 2/B (llwybr troed/llwybr beiciau) a 2/C (llwybr troed) – gweler Atodlen 2 Plan o'r Safle 2. | | Cyngor Sir y Fflint |

| **Mynedfeydd Preifat i'w Gau.** | **Rhif Cyfeirnod y Mynediad Preifat Newydd** |
|---|---|
| - | 3/1 |

## ATODLEN 4

**CYFFORDD PLOUGH LANE**

**Priffyrdd i’w gwella**

Y gefnffordd

Ffordd Wasanaeth Ddiddosbarth gyferbyn â’r Plough Inn

Aston Road

Plough Lane (gan gynnwys y drosbont)

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i’w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod y Priffyrdd** |
| Rhan o Lower Aston Hall Lane o’r ochr orllewinol o’i gyffordd gyda Plough Lane tua’r de orllewin am bellter o 90 metr. | - | - | - |
| Rhan o Lower Aston Hall Lane o’r ochr ddwyreiniol o’i gyffordd gyda Plough Lane i’w gyffordd gyda lôn gerbydau tua gorllewin y gefnffordd, pellter o 150 metr. | - | - | - |
| Ffordd Wasanaeth o flaen y Plough Inn am bellter o 15 metr tua’r de o’i chyffordd gyda Plough Lane. | - | - | - |

| **Mynediad Preifat i’w Gau** | **Rhif Cyfeirnod y Mynediad Preifat Newydd** |
|---|---|
| - | 4/1 |

**Priffordd i’w Chau Dros Dro**

Plough Lane o gyffordd y cylchfan gyda Courtland Drive i’w gyffordd gyda Lower Aston Hall Lane am bellter o 175 metr.

**ATODLEN 5**

**ASTON ROAD A GORLLEWIN CYFNEWIDFA QUEENSFERRY**

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

Lôn Gerbydau Cylchrediad Cyfnewidfa Queensferry, ynys ganol a lleiniau ymyl ffordd

| | **Manylion y Briffordd Newydd** | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Statws Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| Clay Hill Lane o bwynt 30 metr i'r dwyrain o'i gyffordd gyda lôn gerbydau tua'r de y gefnffordd i bwynt ar Clay Hill Lane 110 metr i'r dwyrain o'r gyffordd honno, pellter o 80 metr | 5/A (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |
| | 5/B | Diddosbarth | Cyngor Sir y Fflint |
| Troetffordd o'i chyffordd gyda Dee View ac Aston Road dros y droedbont a elwir yn Droedbont Chevrons Road, ar ochr ddwyreiniol y gefnffordd o bwynt 80 metr i'r gogledd o'i chyffordd gyda Clay Hill Lane, pellter o 100 metr. | 5/A (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |
| | 5/B | Diddosbarth | Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr troed heb ei rifo yn arwain o Clayhill Lane i Daisy Bank Farm o'r droedbont i'r de o Daisy Bank Farm am bellter o 27 metr tua'r de. | 5/A (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |
| Ffordd bengaead heb ei henwi oddi ar Gladstone Way o'i chyffordd gyda Gladstone Way tua'r gogledd am bellter o 160 metr. | 5/C (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |
| Troetffordd yn arwain o ochr ddeheuol y droedbont ar ochr ogleddol Cyfnewidfa Queensferry i'r Ffordd bengaead oddi ar Gladstone Way gan gynnwys y stepiau lawr i Gladstone Way. Pellter o 185 metr. | 5/B | Diddosbarth | Cyngor Sir y Fflint |

**Priffordd i'w Chau Dros Dro**

Lôn Gerbydau Cylchrediad Cyfnewidfa Queensferry o dan y gefnffordd, o'i chyffordd gyda'r ffordd ymuno tua'r de a'r ffordd ymadael tua'r gogledd am bellter o 70 metr.

Lôn Gerbydau Cylchrediad Cyfnewidfa Queensferry o dan y gefnffordd, o'i chyffordd gyda'r ffordd ymuno tua'r gogledd a'r ffordd ymadael tua'r de am bellter o 60 metr.

## ATODLEN 6

**CYFNEWIDFA QUEENSFERRY**

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

Rhan o droetffordd/llwybr beiciau a gwair i'r gorllewin o'r gefnffordd sy'n ffinio gyda Queen Street, Chester Road East a Belvedere Close.

Rhan o droetffordd/llwybr beiciau a gwair i'r dwyrain o'r gefnffordd wrth ymyl y safle amwynder a'r orsaf bwmpio.

Ffordd Ddiddosbarth yn arwain i'r orsaf bwmpio, safle amwynder a Dry Bridge Farm

Chester Road East

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| Tanffordd Queensferry a darn 10 metr o droetffordd gysylltiedig i'r gogledd a'r ddau ddarn 30 metr o droetffordd gysylltiedig i'r de ac i'r dwyrain, 150 metr i'r dwyrain o Gyfnewidfa Queensferry. | 6/A (llwybr beiciau / llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |
| Darnau heb eu rhifo o droetffordd o'u cyffordd gyda Chester Road East am bellter o 25 metr tua'r de orllewin ac yna 45 metr pellach tua'r de orllewin a hefyd am 45 metr tua'r de a'r de orllewin, am gyfanswm pellter o 120 metr. | - | - | - |
| Chester Road (East) (yn arwain i'r brifordd ddi-ddosbarth sy'n mynd i Ffordd Depo Cynnal a Chadw'r Cyngor) o bwynt 125 metr i'r gogledd orllewin o'i chyffordd gyda Chester Road (South) i bwynt 140 metr i'r gogledd orllewin o'r gyffordd honno, am bellter o 15 metr. | - | - | - |
| Chester Road East o'i gyffordd gyda Chester Road South am bellter o 10 metr. | - | - | - |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Troetffordd heb ei rhifo o bwynt ar ochr ddeheuol Queen Street 90 metr o'i chyffordd gyda Chester Road East i bwynt wrth ymyl lôn gerbydau tua'r gorllewin y gefnffordd 70 metr o'r gyffordd gyda Dundas Sreet, pellter o 65 metr. | - | - | - |

| **Mynediad Preifat i'w Gau.** | **Rhif Cyfeirnod y Mynediad Preifat Newydd** |
|---|---|
| Mynediad oddi ar Chester Road East i Dry Bridge Farm o bwynt ar Chester Road East 160 metr i'r gorllewin o'i gyffordd gyda Chester Road East, am bellter o 10 metr. | 6/1 |
| - | 6/2 |
| | 6/3 |

## ATODLEN 7

### CYFNEWIDFA QUEENSFERRY I AFON DYFRDWY

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

Ffordd Fynediad Ddiddosbarth a Heb ei Henwi yn arwain i'r Maes Carafannau

Ffordd Fynediad Ddiddosbarth a Heb ei Henwi yn arwain i'r Maes Carafannau, Depo, Iard Sgrap ac Unedau Diwydiannol

Llwybr Cyhoeddus Rhif 7

Llwybr Cyhoeddus Rhif 2

Claremont Avenue

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 15 ar hyd ochr ogleddol y Rheilffordd o Gaer i Gaergybi o'i gyffordd gyda lôn gerbydau tua'r de ar y gefnffordd am bellter o 65 metr. | - | - | - |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 14 o bwynt wrth ymyl lôn gerbydau tua'r de ar y gefnffordd 160 metr i'r de o Afon Dyfrdwy i'w gyffordd gyda Llwybr Cyhoeddus Rhif 6 a Rhan o Lwybr Cyhoeddus Rhif 6 o'i gyffordd gyda Llwybr Cyhoeddus Rhif 14 i'w gyffordd gyda'r ffordd fynediad ddi-ddosbarth sy'n arwain i'r gwaith trin carthion, am gyfanswm pellter o 1100 metr | 7/A<br>7/B (llwybr troed) | Diddosbarth | Cyngor Sir y Fflint<br>Cyngor Sir y Fflint |
| Ffordd fynediad ddiddosbarth heb ei henwi yn arwain i'r Iard Sgrap, y Maes Carafannau ac Unedau Diwydiannol i'r dwyrain o lôn gerbydau tua'r de ar y gefnffordd 140 metr i'r de o Bont yr Afon Dyfrdwy ac i'r dwyrain o'r orsaf bwmpio bresennol, am bellter o 25 metr. | 8/A (Gweler y plan o'r safle 8) | Diddosbarth | Cyngor Sir y Fflint |
| Llwybr Cyhoeddus Rhif 7 o bwynt o dan lôn gerbydau tua'r | 7/B (llwybr troed) | - | Cyngor Sir y Fflint |

de y gefnffordd 15 metr i’r de o Afon Dyfrdwy tua’r de orllewin ac yna i’r de ddwyrain i bwynt 50 metr i’r dwyrain o’r gefnffordd, pellter o 110 metr.

**ATODLEN 8**

**Priffyrdd i'w gwella**

Y gefnffordd

Chemistry Lane

Factory Road

| | Manylion y Briffordd Newydd | | |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd i'w Cau** | **Cyfeirnod y Briffordd Newydd** | **Dosbarthiad** | **Awdurdod Priffyrdd** |
| - | 8/A | Diddosbarth | Cyngor Sir y Fflint |

| **Mynediad Preifat i'w Gau.** | **Rhif Cyfeirnod y Mynediad Preifat Newydd** |
|---|---|
| - | 8/1 |

**GORCHYMYN CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT DROME CORNER I EWLOE) FFORDD GYSYLLTU A FFORDD YMUNO 200- .**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD DOLGELLAU I FAN I'R DE O BENBEDW (A494) (GWELLIANT DROME CORNER I EWLOE, CILFFYRDD) 200-**

**DATGANIAD ESBONIADOL**

**CYFLWYNIAD**

Mae Gwelliant Drome Corner i Ewloe A4994 wedi ei leoli yng nghyffiniau Queensferry, Sir y Fflint. Mae'r gwelliant hwn rhwng y gyffordd gyda'r A55 yn Ewloe ac Afon Dyfrdwy ac mae'n un o'r prif gysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr.

Mae'r ffordd bresennol yn rhedeg trwy ardal drefol adeiledig ar ei hochr ogleddol, a thrwy dir mwy maestrefol a gwledig yn y rhannau canol a deheuol. Mae'r ardal drefol yn cynnwys gwaith trin carthion, stadau diwydiannol, stadau preswyl a warysau adwerthu mawr tra bod y tir gwledig yn bennaf yn cynnwys tir pori parhaol, planhigion lled aeddfed a gwrychoedd wedi gordyfu. Ar hyn o bryd mae rhai o'r ffyrdd lleol yn ymuno â'r Gefnffordd trwy gyffyrdd is-safonol gan gynnwys cyffyrdd yn Old Aston Hill (tua'r gogledd), Plough Lane, (tua'r gogledd a thua'r de), Clay Lane (tua'r de) a'r mynediad presennol i'r ardal trin carthion ger Afon Dyfrdwy (tua'r de).

## YR ANGEN AM Y CYNLLUN

Yr A494 yn y lleoliad hwn yw'r prif gyswllt rhwng Gogledd Cymru a Glannau Mersi ac mae hefyd yn ffurfio rhan o'r ffordd fyrraf rhwng Gogledd Cymru a'r M56 a Gogledd Lloegr. Mae'r ffordd hefyd yn ffordd gyffredin i drafnidiaeth yn ôl ac ymlaen rhwng y Wyddgrug, Wrecsam a'r M53. Darperir ar gyfer y drafnidiaeth leol o Ewloe, Bwcle, Connah's Quay a Stad Ddiwydiannol Glannau Dyfrdwy a nifer o drefi a phentrefi llai eraill.

Mae maint y drafnidiaeth wedi parhau i dyfu ac erbyn hyn mae'r darn hwn o'r A494 yn cario ymhell dros y mwyafswm a argymhellir ar gyfer y math yma o ffordd. Rhwng Cyfnewidfa Parc Glannau Dyfrdwy a Chyfnewidfa Parc Dewi Sant, yn gyffredinol mae'r ffordd goridor yn gyfleuster ar gyfer trafnidiaeth leol yn hytrach na'r math o draffig trwodd a gysylltir gan amlaf gyda'r math yma o ffordd. Ar hyn o bryd mae oddeutu 62,000 o gerbydau (Traffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol) yn defnyddio'r ffordd ddeuol. Dim ond 23% o'r traffig sy'n mynd i mewn i Gymru yng Nglannau Dyfrdwy yn mynd tu hwnt i Laneurgain ar yr A55.

Mae'r sefyllfa yn newid i ryw raddau yn ystod cyfnodau gwyliau pan fydd traffig gwyliau yn codi nifer y cerbydau sy'n mynd yn ôl ac ymlaen rhwng Gogledd Cymru ar hyd y rhan hon o'r ffordd, gan achosi rhagor o dagfeydd ac oedi. Mae'r gofynion strategol ar gyfer y ffordd goridor yn cynyddu gan fod y coridor yn ffurfio rhan o gyswllt ansawdd uchel rhwng y porthladdoedd ar arfordir dwyreiniol y Deyrnas Unedig a Chymru ac Iwerddon trwy gyfrwng y porthladd yng Nghaergybi.

Bydd yn rhaid i'r ffordd goridor allu dygymod â'r twf parhaus ym maint y drafnidiaeth, ynghyd â'r drafnidiaeth ychwanegol fydd yn cael ei greu gyda datblygiad Stad Ddiwydiannol Parc Glannau Dyfrdwy, tir ym Mharc Dewi Sant a datblygiadau lleol eraill. Mae safon bresennol y gefnffordd yn y lleoliad hwn yn annigonol ar gyfer y cynnydd disgwyliedig hwn ym maint y drafnidiaeth. Ar hyn o bryd mae'r ffordd yn dioddef problemau tagfeydd sylweddol yn ystod oriau brig yn y bore a'r nos, yn ystod gwyliau banc ac yn ystod cyfnodau eraill o wyliau. Bydd y broblem hon yn gwaethygu dros y blynyddoedd sydd i ddod.

Ar ben hyn, ceir nifer o ddamweiniau ar y darn o'r ffordd sydd dan ystyriaeth, yn enwedig wrth y cyffyrdd. Hefyd mae rhywfaint o dystiolaeth bod yr oriau brig yn ymestyn, hynny yw, mae rhai teithwyr yn teithio ynghynt neu'n ddiweddarach er mwyn osgoi tagfeydd. Erbyn hyn mae gwaith cynnal a chadw rheolaidd yn cael ei gyflawni yn ystod y nos yn unig ac mae hynny'n arwain at gostau cynnal a chadw uchel. Hyd yn oed yn ystod cyfnodau tu allan i'r oriau brig, gall cau un lôn achosi ciw hir o draffig. Felly mae'n rhaid cael lonydd ychwanegol o Afon Dyfrdwy i Ewloe.

## YMGYNGHORIADAU CYHOEDDUS

Ychwanegwyd y cynllun hwn at Raglen Ffyrdd y Swyddfa Gymreig ym mis Mai 1991. Datblygwyd opsiynau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a chynhaliwyd arddangosfeydd yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 1992 gan wahodd sylwadau ynglŷn â dau wahanol aliniad a chyfuno cyffyrdd. O ganlyniad i'r ymarfer hwn dewiswyd yr opsiwn sy'n cael ei ffafrio, ac fe'i disgrifir yma yn y paragraffau dilynol.

Cyhoeddwyd y Dewis a Ffefrir yn seiliedig ar y cynnig uchod gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn nodi y dylid lledu'r ffordd bresennol gyda chyffordd ym Mharc Dewi Sant ac yn Queensferry.

Ym mis Mehefin 2005 dyfarnwyd Contract i Alfred McAlpine/Faber Maunsell fynd â'r cynllun trwy'r Broses Statudol ac ymlaen i gael ei Adeiladu yn seiliedig ar y Cyhoeddi'r Dewis a Ffefrir.

Yn dilyn asesiad peirianneg, traffig ac amgylcheddol pellach cynhaliwyd adolygiad o'r holl ddewisiadau am wahanol gyffyrdd er mwyn sicrhau bod yr opsiwn gorau yn cael ei ddewis a'i fod yn rhoi ystyriaeth i amcanion strategol yn ogystal ag amcanion lleol.

Arweiniodd yr adolygiad hwn at gynllun oedd wedi cael ei ddiwygio ychydig, ac a oedd yn dilyn y dewis a ffefrir yn agos.

Cynhaliwyd arddangosfa wybodaeth gyhoeddus er mwyn rhoi'r cyfle i drigolion lleol weld y cynigion cyn cyhoeddi'r gorchmynion drafft ar 20 Gorffennaf –22 Gorffennaf 2006.
Cyn yr arddangosfa roedd nifer fawr o drigolion wedi mynegi pryder bod Old Aston Hill yn cael ei defnyddio fel rhan o'r Gwelliant. Mewn ymateb i'r pryder hwn canfuwyd ateb i ddatrys y broblem a chafodd ei arddangos yn yr arddangosfa. Mae'r ateb hwn yn awr yn rhan o'r cynllun ac mae wedi cael ei gynnwys yn y gorchmynion drafft.

**Y CYNLLUN ARFAETHEDIG**

Mae'r cynllun arfaethedig yn welliant arliniad o oddeutu 4.25km o'r A494 rhwng Cyfnewidfa Parc Dewi Sant yn Ewloe ac Afon Dyfrdwy. Bydd y gwelliant yn cynnwys lledu'r ffordd ddeuol ddwy lôn aml-bwrpas bresennol gan greu ffordd ddeuol gyda 3 neu 4 lôn a llain galed. Bydd y cyffyrdd mynediad uniongyrchol yn cael eu cau, felly bydd angen addasu'r cyffyrdd a darparu llwybr newydd ar gyfer ffyrdd lleol.

Bydd rhaid cael nifer o strwythurau newydd. Bydd y bont droed bresennol rhwng Parc Dewi Sant ac Ewloe yn cael ei chyfnewid am strwythur estynedig a fydd yn cyrraedd safonau mynediad cyfoes. Yng Nghyfnewidfa Parc Dewi Sant mae angen lledu'r ddwy bont i gael lle i lonydd ychwanegol. Bydd pont bresennol Rheilffordd Bidston Wrecsam yn cael ei hadnewyddu a bydd pont newydd ochr yn ochr â'r bont bresennol yn darparu lle i'r lonydd cerbydau ychwanegol. Mae angen estyniad i strwythur Pont Plough Lane. Bydd Traphont bresennol Queensferry yn cael ei dymchwel a dwy bont newydd yn cael eu hadeiladu i gario'r lonydd cerbydau newydd dros y gylchfan. Bydd y llwybrau ar gyfer cerddwyr trwy'r gyffordd yn cael eu gwella lle bo angen. Bydd strwythur lletach ac estynedig yn cael ei roi yn lle'r tanlwybr presennol yng Nghyffordd Queensferry. Bydd pont newydd yn cael ei hadeiladu o dan reilffordd Caer i Gaergybi er mwyn darparu lle i'r lôn gerbydau tua'r de, a bydd y bont reilffordd bresennol yn cael ei hadnewyddu i gario'r lôn gerbydau tua'r gogledd ynghyd â ffordd ymuno. Bydd hyn yn golygu y gellir adeiladu llwybr beiciau ar wahân. Wrth Afon Dyfrdwy bydd angen pont newydd wedi ei lledu i gario'r lôn gerbydau tua'r de. Bydd y bont bresennol yn cael ei hadnewyddu i gario trafnidiaeth tua'r gogledd a llwybr cerdded/beiciau ar wahân.

Bydd ffyrdd lleol newydd yn cael eu hadeiladu i ddarparu ar gyfer traffig o'r cyffyrdd caeedig sy'n bodoli ar hyn o bryd gan gynnwys Old Aston Hill, Plough Lane, Clay Lane a'r mynediad presennol i'r gwaith trin carthion wrth ymyl Afon Dyfrdwy.

**Y GORCHMYNION DRAFFT**

Nid yw'n ofynnol i'r Cynulliad gael caniatâd cynllunio i weithredu'r cynllun arfaethedig. Mae ganddo'r pŵer fel Awdurdod Priffyrdd i wneud y gwelliant i'r gefnffordd bresennol o dan adran 62 o Ddeddf Priffyrdd 1980. Byddir yn cael y pŵer i adeiladu'r ffordd gysylltu a'r ffordd ymuno newydd, israddio rhan o'r gefnffordd a lledu'r bont dros Afon Dyfrdwy (dyfrffordd fordwyol) fel rhan o'r cynllun arfaethedig, trwy'r "Gorchymyn Ffordd Gysylltu a Ffordd Ymuno Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-" sydd wedi ei gyhoeddi yn awr ar ffurf drafft. Byddir yn cael y pŵer i gau, addasu, gwella priffyrdd, llwybrau cerdded a mynediadau preifat ac i adeiladu priffyrdd newydd, llwybrau cyhoeddus a mynediadau preifat trwy'r "Gorchymyn Cilffyrdd Cefnffordd Dolgellau i Fan i'r

De o Benbedw (A494) (Gwelliant Drome Corner i Ewloe) 200-“  (SRO) sydd yn awr wedi cael ei gyhoeddi ar ffurf drafft. Bydd Gorchymyn Prynu Gorfodol drafft yn cael ei gyhoeddi gyda hyn a bydd hyn yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i brynu’r tir a’r hawliau dros y tir, sydd eu hangen ar gyfer y cynnig.